# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 20 Rhagfyr 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** Pa ystyriaeth a roddwyd i gyflwyno targed penodol o ran amser aros ar gyfer epilepsi ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch sut y mae amseroedd aros cyfredol ac unrhyw dargedau arfaethedig yn adlewyrchu canllawiau NICE ar gyfer epilepsi sy'n argymell y dylai pobl gael eu gweld ar frys neu cyn pen pythefnos. (WAQ48867)

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu nifer y marwolaethau o epilepsi yng Nghymru ers cyhoeddi'r Archwiliad Cenedlaethol i Farwolaethau o Epilepsi yn 2002. (WAQ48868)